Ysgol Hamadryad

Angor cadarn cyn hwylio'r don
Angor diogel cyn hwylio

# Perthnasoedd Parchus

# (Polisi Gwrth-fwlio)

STOP BULLYING
STAND UP. SPEAK OUT.

Pennaeth: Mrs Ceri Morgan

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Dr Huw Williams

Dyddiad Polisi: 3.2.2025

Cyfrifoldebau: Pennaeth, Pob staff, Llywodraethwyr

Dyddiad yr adolygiad nesaf: Tymor y Gwanwyn 2026

## Cyflwyniad

Mae bwlio yn effeithio ar bawb, nid dim ond dioddefwyr a'r rhai sy'n bwlio. Mae hefyd yn effeithio ar eraill sy'n tystio i'r bwlio, a gall disgyblion llai ymosodol gael eu tynnu i mewn dan bwysau grŵp. Nid yw bwlio yn rhan anochel o fywyd ysgol nac yn rhan angenrheidiol o dyfu i fyny, ac yn anaml iawn y mae'n sortio ei hun heb ymyrraeth. Mae'n amlwg bod rhai jôcs, geiriau sarhaus, ymddygiad amhriodol, brawychus neu fygythiol, cam-drin ysgrifenedig a thrais i'w cael yn ein cymdeithas. Ni ddylai unrhyw unigolyn neu grŵp, boed yn aelod o staff neu'n ddisgybl, orfod derbyn y math hwn o ymddygiad. Dim ond pan fydd yr holl faterion bwlio yn cael eu datrys, y bydd plentyn yn gallu elwa'n llawn ar y cyfleoedd sydd ar gael yn yr ysgol.

## Amcanion y polisi hwn

- Dylai pob llywodraethwr, staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu, disgyblion a rhieni ddeall beth yw bwlio.
- Dylai pob llywodraethwr, staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu wybod beth yw polisi'r ysgol ar fwlio a'i ddilyn pan fo bwlio yn cael ei adrodd.
- Dylai pob disgybl a rhiant wybod beth yw polisi'r ysgol ar fwlio a beth ddylen nhw ei wneud os bydd bwlio yn codi.
- Fel ysgol rydyn ni'n cymryd bwlio o ddifrif. Dylai disgyblion a rhieni fod yn hyderus y byddant yn cael eu cefnogi pan fydd bwlio yn cael ei adrodd.
- Ni fydd bwlio yn cael ei oddef yn Ysgol Hamadryad.

## Pam mae angen polisi gwrth-fwlio?

Credwn fod gan ein disgyblion yr hawl i ddysgu mewn amgylchedd cefnogol, gofalgar a diogel heb ofni cael eu bwlio.

Mae pob sefydliad, mawr a bach, yn cynnwys rhai disgyblion sydd â'r potensial i ddangos ymddygiad bwlio. Os yw ysgol yn ddisgybledig a threfnus iawn, gall leihau nifer yr achosion o fwlio. Mae'n bwysig felly bod gan yr ysgol bolisi ysgrifenedig clir i hyrwyddo'r ethos hwn, lle mae disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid yn gwbl ymwybodol a hyderus y bydd unrhyw gwynion am fwlio yn cael eu trin yn gadarn, yn deg, yn dryloyw ac yn brydlon.

Yn Ysgol Hamadryad ein nod yw hyrwyddo ethos gofalgar a chefnogol fydd yn arwain at sicrhau fod bwlio yn llai tebygol. Rydym yn gwneud hyn trwy:

- creu amgylchedd a chod ymddygiad lle mae bwlio yn cael ei adnabod fel ymddygiad sarhaus
- creu amgylchedd lle bydd disgyblion yn rhoi gwybod am fwlio i oedolyn
- ymdrin yn effeithiol â digwyddiadau a adroddwyd.
- ymdrin yn agored â mater bwlio yn amser gwersi a gweithgareddau'r ysgol
- gwneud yn glir i'r ysgol, rhieni a'r gymuned gyfan na fydd bwlio, mewn unrhyw ffurf, yn cael ei oddef.

**Beth yw bwlio?**

Mae bwlio yn digwydd pan fydd person yn ymddwyn yn fwriadol ddrwg i berson arall yn barhaus. Ni ddylid ystyried achosion untro o frifo, pryfocio neu ffrae rhwng unigolion yn fwlio. Er enghraifft, mae plant wrth ffraeo yn aml yn defnyddio enwau ar ei gilydd. Yr hyn y mae'n rhaid ei ystyried wrth asesu a yw bwlio yn digwydd mewn gwirionedd yw natur, difrifoldeb, amlder, cymhelliant a nifer yr achosion dan sylw. Nid yw bwlio yn achlysur unigol o:

- cwympo allan gyda ffrindiau
- galw enw
- dadlau
- jôcs neu chwarae triciau ar rywun.

Gall bwlio ddigwydd trwy sawl math o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gall fod yn:

a. **Gorfforol**
   Gall plentyn gael ei ddyrnu'n gorfforol, ei gicio, ei daro, ei boeri arno, ac ati.

b. **Llafar**
   Gall cam-drin geiriol fod ar ffurf galw enw. Gall fod wedi'i gyfeirio at ryw, tarddiad ethnig, anabledd corfforol/cymdeithasol, neu bersonoliaeth, ac ati.

c. **Cau allan**
   Gall plentyn gael ei fwlio yn syml trwy gael ei eithrio o sgyrsiau/gweithgareddau, gyda'r rhai y maent yn credu eu bod yn ffrindiau iddynt.

d. **Niwed i eiddo neu ddwyn.**
   Gall ddwyn neu ddifrodi eiddo fod yn ffurf ar fwlian. Gall bygythiadau corfforol gael eu defnyddio gan y rhai sy'n bwlio er mwyn i'r disgybl drosglwyddo eiddo iddynt.

e. **Ar-lein**
   Mae lluniau anffodus, sylwadau annymunol a cham-drin ysgrifenedig yn rhan o’n cymdeithas ddigidol fodern. Bydd Ysgol Hamadryad yn gweithredu ar achosion o fwlio yn y cyfrwng hwn.

*E-ddiogelwch*
*Mae natur esblygol y cyfryngau cymdeithasol sy'n newid yn barhaus yn dyddio cyngor yn gyflym. Mae rhan o'n gwaith cymhwysedd digidol yn yr ysgol wedi'i anelu at rymuso disgyblion fel dinasyddion digidol. Mae'r gwerthoedd teuluol rydych chi'n eu dysgu i'ch plentyn o gwrteisi, meddylgarwch, caredigrwydd, ystyriaeth ac empathi hefyd yn berthnasol yn y byd cyfathrebu digidol sy’n newid yn barhaus.*

**Hiliaeth ac aflonyddu rhywiol**

Mae aflonyddu hiliol a rhywiol yn gysylltiedig â bwlio. Maent yn aml yn cynnwys yr un mathau o ymddygiad, ond maent fel arfer yn cael eu cyfeirio yn erbyn person oherwydd eu hunaniaeth ddiwylliannol, neu oherwydd eu bod yn perthyn i grŵp ethnig neu ryw penodol. Bydd angen delio â bwlio o natur hiliol yng nghyd-destun polisïau gwrth-hiliol sy'n ofynnol gan ysgolion o dan y Ddeddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol a'r Canllawiau a Gweithdrefnau ar gyfer Delio ac Adrodd Digwyddiadau Hiliol mewn Ysgolion.

**Pam mae'n bwysig ymateb i fwlio?**

Yn Ysgol Hamadryad rydym yn ffynnu ar ein polisi ymddygiad cadarnhaol gyda'n hethos adferol o gyfle cyfartal i bawb, felly ni fydd bwlio yn cael ei oddef yn ein hysgol. Does neb yn haeddu dioddef bwlio. Mae gan bawb yr hawl i fod yn hapus a chael eu trin â pharch.

**Symptomau**

Gall plentyn ddangos trwy ei ymddygiad, ei fod yn cael ei fwlio. Gallai'r arwyddion a'r ymddygiadau hyn awgrymu problemau eraill. Dylai oedolion fod yn ymwybodol o'r arwyddion posibl hyn:

- Arwyddion o ddioddef e.e. ddim eisiau mynychu'r ysgol
- Yn dod yn ôl o'r ysgol yn bryderus neu'n dangos diffyg hyder
- Crio, dioddef hunllefau a/neu'n gwlychu'r gwely
- Dirywiad yn safon gwaith ysgol.

**Rolau a Chyfrifoldebau**

<u>Rôl y plant</u>
Mae disgyblion yn cael eu hannog i ddweud wrth unrhyw un maen nhw'n ymddiried ynddynt os ydyn nhw'n cael eu bwlio, ac os yw'r bwlio yn parhau, mae'n rhaid iddyn nhw ddweud wrth bobl eraill. Gwahoddir disgyblion i rannu eu barn â staff am ystod o faterion ysgol, gan gynnwys bwlio. Mae'n gyfrifoldeb ar y plant i ymddwyn yn unol â rheolau'r ysgol yn yr ystafell ddosbarth ac yn ystod amseroedd egwyl. Maent i fod i ddangos parch i bob plentyn ac oedolyn arall yn y dosbarth a'r ysgol.

<u>Rôl Llywodraethwyr</u>
Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r Pennaeth ym mhob ymgais i ddileu bwlio o'n hysgol. Mae'r datganiad polisi hwn yn ei gwneud hi'n glir iawn nad yw'r corff llywodraethol yn caniatáu i fwlio ddigwydd yn ein hysgol, a bod unrhyw achosion o fwlio sy'n digwydd yn cael eu cymryd o ddifrif ac yn cael eu trin yn briodol. Mae'r llywodraethwyr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth gadw cofnodion cywir o bob digwyddiad o fwlio ac adrodd i'r llywodraethwyr ar gais am effeithiolrwydd strategaeth gwrth-fwlio yr ysgol. Bydd y corff llywodraethol yn ymateb o fewn deg diwrnod i unrhyw gais gan riant i ymchwilio i achosion o fwlio. Ym mhob achos, bydd y corff llywodraethol yn hysbysu'r Pennaeth ac yn gofyn iddynt gynnal ymchwiliad i'r achos ac adrodd yn ôl i gynrychiolydd o'r corff llywodraethu.

<u>Rôl y Pennaeth</u>
Mae'n gyfrifoldeb ar y Pennaeth i weithredu polisi gwrth-fwlio yr ysgol a sicrhau bod yr holl staff (gan gynnwys y rhai nad ydynt yn addysgu) yn ymwybodol o bolisi'r ysgol ac yn gwybod sut i ddelio ag achosion o fwlio. Bydd y Pennaeth yn adrodd i'r corff

llywodraethu am effeithiolrwydd y polisi gwrth-fwlio ar gais. Bydd y Pennaeth yn sicrhau bod pob plentyn yn gwybod bod bwlio yn anghywir, a'i fod yn ymddygiad annerbyniol yn yr ysgol. Bydd y Pennaeth yn tynnu sylw'r plant at y ffaith hon ar adegau addas. Er enghraifft, os bydd digwyddiad yn digwydd, gall y Pennaeth benderfynu defnyddio gwasanaeth fel fforwm i drafod gyda phlant eraill pam fod yr ymddygiad hwn yn anghywir. Bydd y Pennaeth yn sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant digonol i fod yn barod i ddelio â phob digwyddiad o fwlio. Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am greu ysgol gefnogol lle mae perthnasoedd cadarnhaol yn cael eu meithrin, fel bod bwlio yn llai tebygol. Pan fydd plant yn teimlo eu bod yn bwysig ac yn perthyn i ysgol gyfeillgar a chroesawgar, mae bwlio yn llawer llai tebygol o fod yn rhan o'u hymddygiad.

Rôl yr athro

Mae holl staff Ysgol Hamadryad yn gyfrifol am feithrin ethos a diwylliant ysgol sy'n gwerthfawrogi perthnasoedd cadarnhaol ac yn hyrwyddo parch at unigolion. Byddant bob amser yn pwysleisio pwysigrwydd gofal ac ystyriaeth i eraill, sensitifrwydd i deimladau eraill, cyfrifoldeb am weithredoedd rhywun a pharchu eich hun ac eraill. Byddant yn ymdrechu i feithrin amgylchedd sy'n gwerthfawrogi cydweithredu a pherthnasoedd da. Bydd hyn yn cynnwys strategaethau ymddygiad cadarnhaol, cyfleoedd i weithio gyda gwahanol ddisgyblion mewn gwahanol grwpiau (e.e. parau a grwpiau bach) a hefyd addysgu ymwybyddiaeth o berthnasoedd cadarnhaol o fewn y cwricwlwm.

Mae athrawon yn ein hysgol yn cymryd pob math o fwlio o ddifrif, ac yn ymyrryd i atal digwyddiadau rhag digwydd. Byddant yn cadw eu cofnodion eu hunain o'r holl ddigwyddiadau yn eu dosbarth ac yn ymwybodol ohonynt yn yr ysgol. Os yw athrawon yn dyst i weithred o fwlio, byddant yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi'r plentyn sy'n cael ei fwlio. Os yw plentyn yn cael ei fwlio dros gyfnod o amser, yna, ar ôl ymgynghori â'r Pennaeth, bydd yr athro yn rhoi gwybod i rieni'r plentyn.

Os bydd athrawon yn dod yn ymwybodol o unrhyw fwlio sy'n digwydd rhwng aelodau dosbarth, byddant yn delio â'r mater ar unwaith. Gall hyn gynnwys cefnogaeth emosiynol i'r dioddefwr, a chytuno ar ffordd ymlaen, a all gynnwys sancsiynau yn ogystal â chefnogaeth, i'r plentyn/plant sydd wedi bod yn bwlio. Byddant yn treulio amser yn siarad â'r plentyn sydd wedi bwlio: byddant yn esbonio pam fod gweithred y plentyn yn anghywir, ac yn ymdrechu i helpu'r plentyn i newid ei ymddygiad yn y dyfodol. Os yw plentyn yn parhau i fwlio plant eraill dro ar ôl tro, byddant yn rhoi gwybod i'r Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth. Yna byddant yn gwahodd rhieni'r plentyn i'r ysgol i drafod y sefyllfa. Mewn achosion mwy eithafol, er enghraifft lle mae'r trafodaethau cychwynnol hyn wedi profi'n aneffeithiol, gall y Pennaeth gysylltu ag asiantaethau cymorth allanol. Bydd athrawon yn ceisio cefnogi pob plentyn yn eu dosbarth a sefydlu hinsawdd o ymddiriedaeth a pharch at bawb. Trwy ganmol, gwobrwyo a dathlu llwyddiant pob plentyn, rydym yn anelu at atal achosion o fwlio.

Rôl rhieni a gwarcheidwaid

Dylai rhieni sy'n pryderu y gallai eu plentyn fod yn cael ei fwlio, neu sy'n amau y gallai eu plentyn fod yn bwlio, gysylltu ag athro dosbarth eu plentyn ar unwaith. Mae gan rieni gyfrifoldeb i gefnogi Polisi Perthnasoedd Parchus (Gwrth-fwlio) yr ysgol ac i annog eu plentyn i fod yn aelod cadarnhaol o'r ysgol.

## Cyngor i rieni / Gwarcheidwaid

Chwiliwch am ymddygiad anarferol yn eich plant. Er enghraifft, efallai na fyddant yn dymuno mynychu'r ysgol yn sydyn, teimlo'n sâl yn rheolaidd, neu ddim yn cwblhau gwaith i'w safon arferol. Cymerwch rôl weithredol bob amser yn addysg eich plentyn. Holwch sut mae eu diwrnod wedi mynd, gyda phwy maen nhw wedi treulio eu hamser, beth maen nhw wedi ei wneud amser cinio ac ati.

Os ydych chi'n teimlo y gall eich plentyn fod yn ddioddefwr ymddygiad bwlio, rhowch wybod i'r athro dosbarth ar unwaith. Bydd eich cwyn yn cael ei chymryd o ddifri a bydd camau priodol yn dilyn.

- Mae'n bwysig eich bod chi'n cynghori'ch plentyn i beidio ag ymladd yn ôl. Gall wneud pethau'n waeth.
- Pwysleisiwch wrth eich plentyn nad oes unrhyw beth o'i le ag ef neu hi. Nid eu bai nhw yw e eu bod yn cael eu bwlio.
- Gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn gwbl ymwybodol o bolisi'r ysgol ynglŷn â bwlio, ac na fyddant yn ofni gofyn am help.

**Beth allwch chi ddweud wrth eich plentyn os yw'n cael ei fwlio?**

- Bydd athrawon yn eich cymryd o ddifri a byddant yn delio â bwlis mewn ffordd fydd yn dod â'r bwlio i ben ac ni fydd yn gwneud pethau'n waeth i chi.
- Cofiwch mai eich distawrwydd yw arf mwyaf y bwli!
- Dywedwch wrthych eich hun nad ydych chi'n haeddu cael eich bwlio.
- Byddwch yn falch o bwy ydych chi. Mae'n dda bod yn unigolyn.
- Ceisiwch beidio â dangos eich bod chi'n cynhyrfu. Mae'n anodd ond mae bwli yn mwynhau codi ofn ar rywun.
- Arhoswch gyda grŵp o ffrindiau/pobl. Mae diogelwch mewn niferoedd.
- Byddwch yn gadarn – dywedwch "Na!" Cerddwch yn hyderus i ffwrdd. Ewch yn syth at athro neu aelod o staff.
- Yn gyffredinol, mae'n well dweud wrth oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddo ar unwaith. Byddwch yn cael cefnogaeth.

## Cyngor i ddisgyblion

**Os ydych chi'n gwybod bod rhywun yn cael ei fwlio:**
GWEITHREDWCH!

- Mae gwylio a gwneud dim yn edrych fel pe baech chi ar ochr y bwli. Mae'n gwneud i'r dioddefwr deimlo'n fwy anhapus ac ynysig.
- Os ydych chi'n teimlo na allwch ymyrryd, dywedwch wrth oedolyn ar unwaith. Mae gan athrawon ffyrdd o ddelio â'r bwli heb eich cael i drafferth.
- Peidiwch â bod, nac esgus bod, yn ffrindiau gyda bwli.
- Cofiwch y gallwch chi ddweud wrthym beth rydych chi'n ei feddwl mewn gwirionedd.

**Fel ysgol byddwn ni yn:**

- Delio’n gyflym, yn gadarn ac yn deg ag unrhyw gwynion, gan gynnwys rhieni lle bo angen.
- Adolygu'r polisi ysgol a’i lwyddiant.
- Parhau i gael strwythur disgyblaeth gadarn ond teg. Bydd disgwyliadau yn syml ac yn hawdd eu deall.
- Gwrthod defnyddio deunyddiau neu offer addysgu sy'n rhoi golwg ddrwg neu negyddol ar unrhyw grŵp oherwydd eu tarddiad ethnig, rhyw, ac ati.
- Annog disgyblion i drafod sut i ddod ymlaen â phobl eraill ac i ffurfio agweddau cadarnhaol tuag at bobl eraill.
- Annog disgyblion i drin pawb â pharch.
- Yn trin bwlio fel trosedd ddifrifol ac yn cymryd pob cam posibl i'w ddileu o'n hysgol.

**Camau i'w cymryd pan mae amheuaeth o fwlio:**

1. Os oes amheuaeth o fwlio, bydd y Pennaeth neu aelodau'r Uwch Dîm Arwain yn cynnal ymchwiliad trylwyr. Byddant yn siarad â'r dioddefwr dan amheuaeth, y rhai dan amheuaeth o fwlio ac unrhyw dystion.
2. Os yw'n briodol, efallai y bydd staff yn dewis cymryd rhai mesurau tymor byr tra bod y bwlio yn cael ei ymchwilio. Efallai y bydd angen gwahanu'r dioddefwr dan amheuaeth a'r rhai sy'n cael eu hamau o fwlio, neu efallai y bydd angen rhoi system fonitro ar waith, ond rhaid gweithredu mesurau dilynol i ddatrys y materion yn y tymor hwy.
3. Ar ôl i'r ymchwiliad ddigwydd, yna bydd y Pennaeth neu'r aelod o'r Uwch Dîm Arwain yn adrodd yn ôl i'r Uwch Dîm Arwain i gael drafodaeth drylwyr i benderfynu ar y camau nesaf.
4. Bydd help, cefnogaeth ac ymyrraeth yn cael eu rhoi fel sy'n briodol i'r dioddefwyr a'r rhai sy'n bwlio eraill.
5. Bydd cofnodion yn cael eu cadw o ymchwiliadau a gweithredoedd.

**Rydym yn cefnogi'r dioddefwyr yn y ffyrdd canlynol:**

- Cynnig cyfle ar unwaith iddynt siarad am y profiad gyda'u hathro dosbarth, neu athro arall os ydynt yn dewis. Byddant hefyd yn cael cyfle i siarad â staff bugeiliol.
- Hysbysu rhieni/gwarcheidwaid y dioddefwyr.
- Cynnig cefnogaeth barhaus pan fyddant yn teimlo bod ei angen arnynt.
- Cynnal cyfarfod adferol neu gylch adferol.
- Cymryd un neu fwy o'r camau disgyblu a ddisgrifir isod i atal mwy o fwlio.

**Camau disgyblu i'r rhai sy'n bwlio:**

1. Rhybudd swyddogol i roi'r gorau i fwlio.
2. Rhieni/gwarcheidwaid yn cael eu hysbysu.
3. Atal breintiau fel y bo'n briodol, e.e. peidio â chynrychioli ysgol o fewn gwahanol weithgareddau.
4. Gwaharddiad mewnol, os yw'n briodol, yn ystod amseroedd gwersi a/neu egwyl.
5. Efallai y byddant yn cael eu heithrio o adeiladau'r Ysgol amser cinio.
6. Efallai y byddwn yn trefnu i rieni eu hebrwng i ac o adeiladau'r ysgol.
7. Os nad ydyn nhw'n rhoi'r gorau i fwlio, gellid ystyried gwaharddiad cyfnod penodol. Mae'r canllawiau ar gyfer gwahardd wedi'u hamlinellu ym Mholisi Ymddygiad yr ysgol. Fodd bynnag, dylid nodi, ar unrhyw achlysur lle teimlir

bod ymddygiad disgybl yn fygythiad corfforol i eraill, gall gwaharddiad cyfnod penodol (yn ôl disgresiwn y Pennaeth) fod ar unwaith.

**Ynghyd â disgyblaeth, rydym hefyd yn ceisio helpu plant sy'n bwlio eraill yn y ffyrdd canlynol:**

- Trwy siarad am yr hyn ddigwyddodd, i ddarganfod pam y gwnaethon nhw gymryd rhan.
- Hysbysu rhieni a gwarcheidwaid.
- Trwy barhau i weithio gyda'r rhai sy'n bwlio er mwyn cael gwared ar agweddau rhagfarnllyd cyn belled â phosibl.
- Trwy gymryd un neu fwy o'r saith cam disgyblu a ddisgrifir uchod i atal bwlio pellach.

**Rydym hefyd yn defnyddio'r strategaethau canlynol hyn i atal a lleihau digwyddiadau o fwlio:**

- Defnydd eang o ddulliau adferol
- Amser Cylch
- Trafodaethau yng nghyfarfodydd y Senedd
- Cyfryngu gan oedolion
- Cymorth Dysgu Emosiynol (ELSA)
- Arddangos posteri gwrth-fwlio.
- Asiantaethau allanol - nyrs ysgol, EWO ac athrawon arbenigol
- Wythnos Gwrth-fwlio
- Cyswllt Heddlu Cymunedol
- Trafodaethau uniongyrchol ac anuniongyrchol drwy feysydd o'r cwricwlwm e.e. Cwricwlwm Iechyd a Lles, llythrennedd, drama, hanes, Addysg Grefyddol, Gwerthoedd a Moeseg (RVE), Llythrennedd Cymdeithasol ac Emosiynol.

**Cymorth neu Wybodaeth Ychwanegol**

Mae'r gwefannau canlynol yn cynnig cymorth a chyngor i rieni/gwarcheidwaid a disgyblion:

www.beatbullying.org

https://bulliesout.com/

www.bullying.co.uk

www.childnet-int.org

www.kidscape.org.uk

www.parentlineplus.org.uk

www.thinkuknow.co.uk

www.wisekids.org.uk

www.llyw.cymru (Saesneg yn unig)

www.childline.org.uk

[www.nspcc.org.uk](http://www.nspcc.org.uk)

STOP BULLYING

STAND UP. SPEAK OUT.

Llofnodwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr: H.Williams

Llofnodwyd gan y Pennaeth: C.Morgan

Dyddiad: 3.2.2025